# CYLCHLYTHYR RHIENI/GOFALWYR
Haf 2025

Gyrfa Cymru
Careers Wales

**Ar gyfer rhieni a gofalwyr pobl ifanc mewn addysg brif ffrwd**

## Croeso

Mae hwn yn dymor prysur arall i'n cynghorwyr gyrfa sy'n gweithio mewn ysgolion, ac rydym yma i'ch helpu chi a'ch plentyn i lywio'r camau nesaf.

Dros yr haf, byddwn yn cadarnhau ein cynnig i ddisgyblion ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf, gan ddefnyddio canfyddiadau arolwg Gwirio Gyrfa eleni (byddwn yn rhannu mwy am hynny yn ddiweddarach yn y cylchlythyr).

Mewn llawer o ysgolion, bydd dysgwyr blwyddyn 10 yn cael eu gwahodd i gyfweliadau gyrfa gan roi'r cyfle iddynt ddechrau archwilio eu hopsiynau ar gyfer y dyfodol.

Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda dysgwyr blwyddyn 11 y tu allan i'r ysgol, gan gefnogi'r rhai sy'n barod i gymryd eu cam nesaf neu sydd angen ychydig mwy o help i benderfynu pa lwybr yr hoffent ei ddilyn. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth yn y cylchlythyr hwn am ein gwasanaethau a'r opsiynau sydd ar gael i'ch plentyn ar ôl **Blwyddyn 11.**

Byddwn yn cadw mewn cysylltiad â myfyrwyr blwyddyn 11 sy'n gadael yr ysgol dros yr haf i'w helpu i gymryd y cam nesaf ar eu llwybr gyrfa. I ddysgwyr mewn addysg bellach neu ym mlynyddoedd 12 a 13 sy'n chwilio am waith neu hyfforddiant, rydym yma i'w helpu i ddod o hyd i leoliadau a dechrau adeiladu eu gyrfa.

Bydd ein paratoadau ar gyfer arolwg cenedlaethol blynyddol nesaf ynghylch hynt disgyblion yn dechrau cyn bo hir, felly efallai y byddwch yn clywed gennym wrth i ni holi ynglŷn â chamau nesaf eich plentyn.

Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau'r cylchlythyr hwn ac yn ei gael yn addysgiadol ac yn ddefnyddiol wrth i chi gefnogi camau nesaf eich plentyn.

## Ein cyflawniadau

Rydym yn falch o'n cyflawniadau wrth ddarparu gwasanaethau i bobl ifanc mewn ysgolion. Rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025:

- Aeth **40,761** o ddisgyblion i gyfweliadau gyrfaoedd
- Cysylltodd **11,532** o rieni disgyblion mewn ysgolion prif ffrwd â ni am gymorth
- Bu **1,704** o sesiynau grŵp yn ymwneud â gyrfaoedd mewn ysgolion
- Mynychod **44,182** o ddisgyblion sesiynau grŵp yn ymwneud â gyrfaoedd mewn ysgolion
- Cyflwynwyd **2,402** o weithgareddau â chyflogwyr mewn ysgolion
- Mynychod **78,091** o ddisgyblion weithgareddau â chyflogwyr mewn ysgolion

## Llais rhieni

Yn ein cylchlythyr ar gyfer y gwanwyn, gofynnwyd i rieni a oedd yn hapus i rannu eu hadborth a'u barn ar ein gwasanaethau i gysylltu â ni drwy anfon neges e-bost i rhieni@gyrfacymru.llyw.cymru



Diolch i'r holl rieni hynny a gysylltodd â ni. Mae arolwg ymgynghori bellach wedi'i rannu gyda chi.

Hoffem i gynifer o rieni â phosibl gwblhau'r arolwg (a ddylai gymryd tua phum munud i'w gwblhau). Cliciwch ar y ddolen isod i gwblhau'r arolwg:

Arolwg Ymgynghori â Rhieni

**Diolch!**

# Gwirio Gyrfa

## Wyddech chi...? bod dros 28,000 o bobl ifanc yn cwblhau ein harolwg Gwirio Gyrfa bob blwyddyn.

Gwahoddir pob ysgol yng Nghymru i gymryd rhan yn yr arolwg. Gofynnir cyfres o gwestiynau i ddisgyblion sy'n helpu cynghorwyr gyrfa yr ysgolion i ddeall ac asesu eu sgiliau rheoli gyrfa. Ar hyn o bryd, mae ein cynghorwyr gyrfa yn cefnogi disgyblion blwyddyn 10, ledled Cymru, i gwblhau'r arolwg cyn diwedd tymor yr haf.

Siaradwch â'ch plentyn a gofynnwch iddyn nhw am yr arolwg ac efallai trafodwch rai o'u hatebion â nhw – efallai yr hoffen nhw ddysgu mwy am rai o'u syniadau o ran gyrfa neu am rai o'r opsiynau sydd ar gael iddyn nhw ar ôl cwblhau blwyddyn 11.

Dewch o hyd i awgrymiadau ar gyfer sgyrsiau gyrfa a syniadau gyrfa sy'n gysylltiedig â sgiliau, diddordebau a hoff bynciau eich plentyn.

Archwilio syniadau gyrfa gyda'ch plentyn

Os hoffech chi gael gwybod mwy am opsiynau ôl-16, gallwch edrych yma.

Eich plentyn ym Mlynyddoedd 10 ac 11

Cwblhaodd pobl ifanc a oedd yn gadael blwyddyn 11 yr haf hwn yr arolwg hwn yn ystod haf 2024. Dyma grynodeb o rai o'u hatebion:

**Y camau nesaf a ffefrir oedd:**

1 dechrau addysg llawn amser yn y coleg
2 dechrau addysg llawn amser yn yr ysgol
3 dechrau prentisiaeth

**Y pum dewis galwedigaethol mwyaf poblogaidd yn gyffredinol oedd (gwrywod a benywod gyda'i gilydd):**

1 Iechyd a meddygol
2 Adeiladu a gwaith adeiladu
3 Peirianneg
4 Hamdden, chwaraeon a thwristiaeth
5 Dim syniadau

**Y pum dewis galwedigaethol mwyaf poblogaidd i fenywod oedd:**

1 Iechyd a meddygol
2 Gwallt a harddwch
3 Gofal plant
4 Celf a dylunio
5 Y gyfraith

**Y pum dewis galwedigaethol mwyaf poblogaidd i wrywod oedd:**

1 Adeiladu a gwaith adeiladu
2 Peirianneg
3 Hamdden, chwaraeon a thwristiaeth
4 Dim syniadau
5 Cyfrifiaduron, meddalwedd a TG

Mae dadansoddi canlyniadau Gwirio Gyrfa yn awgrymu bod sgiliau rheoli gyrfa cyffredinol pobl ifanc yng Nghymru yn dda gyda thystiolaeth yn awgrymu mai gwneud penderfyniadau a hunanymwybyddiaeth sydd gryfaf. Mae hyn yn helpu cynghorwyr gyrfa yn yr ysgol i gyflwyno'r gwasanaeth mwyaf priodol i ateb anghenion pobl ifanc.

Bydd cynghorwyr gyrfa mewn ysgolion yn dadansoddi ymatebion yr arolwg gwirio gyrfa a byddant yn gwahodd eich plentyn i gyfweliad yn yr ysgol. Mae'n bwysig annog eich plentyn i fynd i'w gyfweliad er mwyn iddo allu trafod ei syniadau gyrfa yn fanylach ac efallai darganfod mwy am feysydd gwaith sy'n llai cyfarwydd iddo. Mae ymchwil yn awgrymu bod pobl ifanc sy'n mynychu eu cyfweliadau gyrfa yn yr ysgol hyd at 42% yn fwy tebygol o ymgysylltu ag addysg neu hyfforddiant ar ôl blwyddyn 11.

Dysgwch sut i baratoi ar gyfer cyfarfod gyda chynghorydd gyrfa, ac am ba reswm.

Helpwch eich plentyn i fanteisio i'r eithaf o weld cynghorydd gyrfa | Gyrfa Cymru

# Sut gallwn helpu eich plentyn

## Straeon go iawn

Mae Aoife, sy'n 15 oed, yn ddisgybl ym mlwyddyn 11 mewn ysgol ym Mhort Talbot. Roedd ganddi lawer o ddiddordebau ond nid oedd yn siŵr pa yrfa i'w dewis. Dywedodd: "Roeddwn yn y tywyllwch braidd o ran yr hyn roeddwn i eisiau ei wneud gyda fy ngyrfa. Roedd gen i'r holl ddiddordebau hyn, a doeddwn i ddim wir yn gwybod pa lwybr i'w ddilyn."

Roedd Aoife wedi ystyried deintyddiaeth, ond roedd ganddi ddiddordeb mewn peirianneg hefyd. Trefnodd apwyntiad gyda Hannah Tossell, cynghorydd gyrfa yn ei hysgol, i ofyn am gyngor.

## Cymorth gan Gyrfa Cymru

Cafodd Aoife gymorth gan Hannah i ystyried ei diddordebau yn fanylach. Edrychon nhw ar yrfaoedd oedd yn cyd-fynd â'r pynciau roedd Aoife yn eu mwynhau.

Dywedodd: "Fe ofynnodd hi i mi pa fath o ddiddordebau oedd gen i, pa bynciau roeddwn i'n eu mwynhau, ac fe aethon ni drwy yrfaoedd posibl y gallwn i eu gwneud gyda'r pynciau Safon Uwch roeddwn i am eu dewis."

Edrychodd Aoife ar y cymwysterau y mae eu hangen ar gyfer gyrfa mewn deintyddiaeth. Sylweddolodd nad oedd am astudio'r pynciau hynny. Yn hytrach, sianelodd ei diddordeb mewn peirianneg.

Dangosodd Hannah wefan Gyrfa Cymru i Aoife, a rhoddodd gynnig ar gwis paru gyrfa. Roedd peirianneg yn un o'r pynciau a ddaeth i'r brig, a helpodd iddi benderfynu ei ddilyn.

Dywedodd Aoife: "Mae hi [Hannah] yn gefnogol iawn, yn hyfryd iawn. Rwy'n teimlo y gallaf siarad â hi yn hawdd iawn. Fe wnaeth hi i mi deimlo'n hyderus gyda fy newisiadau."

## Magu hyder

Ers cael cymorth, mae Aoife wedi magu hyder yn ei dewisiadau gyrfa. Mae hi wedi penderfynu ar ei phynciau Safon Uwch ac yn teimlo'n fwy brwdfrydig am ei dyfodol.

Dywedodd Aoife: "Rwyf wedi setlo ac yn canolbwyntio mwy ar fy newisiadau gyrfa nawr."



## Stori Aoife

***Gyda chymorth cynghorydd gyrfa, cymerodd Aoife gam tuag at yrfa mewn peirianneg chwaraeon moduro.***

## Yn frwd dros Fformiwla Un

Ers cyfarfod â'i chynghorydd, mae Aoife wedi gwneud cais am gyfleoedd newydd. Mae hi wedi cael cyfarwyddyd ar baratoi ei CV ac ysgrifennu llythyr eglurhaol.

Diolch i'w gwaith caled, cynigiwyd cyfweliad profiad gwaith i Aoife. Llwyddodd i gael lleoliad ar gyfer tymor yr haf yn ymwneud â gwyddorau deunydd ym maes chwaraeon moduro.

Mae Aoife yn breuddwydio am weithio ym maes peirianneg chwaraeon moduro, yn benodol gyda Fformiwla Un. Mae hi'n bwriadu mynd i'r brifysgol i astudio peirianneg neu wyddorau deunydd. Hoffai astudio yn Iwerddon, o bosibl yn Nulyn neu Galway.

Dywedodd: "Rwy'n llawn cyffro. Alla i ddim aros i ddechrau gweithio tuag at fy Safon Uwch a'm gradd yn y brifysgol. Mae wir wedi rhoi llawer o gyfleoedd i mi."

# Digwyddiadau'r haf

Mae gan Gyrfa Cymru a Cymru'n Gweithio haf prysur o'n blaenau am ein bod yn bwriadu mynd i Sioe Frenhinol Cymru a'r Eisteddfod Genedlaethol eto'r haf hwn.

Bydd gennym raglen o weithgareddau a gweithdai hwyliog ar gael ym mhob digwyddiad.

Dewch i'n gweld yn y lleoliadau canlynol:

- **Sioe Frenhinol Cymru, Llanfair-ym-Muallt, rhwng 21 a 24 Gorffennaf**
- **Yr Eisteddfod Genedlaethol, Wrecsam, rhwng 2 a 9 Awst**

Mae digwyddiadau Gyrfa Cymru i'w gweld yma:

gyrfacymru.llyw.cymru/digwyddiadau

Mae digwyddiadau Cymru'n Gweithio i'w gweld yma:

cymrungweithio.llyw.cymru/digwyddiadau







# Swyddi tymhorol yr haf

## Beth yw buddion gweithio yn ystod yr haf i'ch plentyn? Dyma bump ohonynt:

### 1 Profiad gwaith

Mae swydd yn ystod yr haf yn ffordd ardderchog o gael profiad gwaith ac o roi hwb i'w CV ar gyfer ceisiadau am swyddi yn y dyfodol.

### 2 Annibyniaeth ariannol

Gall pobl ifanc, drwy ennill cyflog, ddysgu sgiliau ariannol gwerthfawr fel cyllidebu a rheoli arian.

### 3 Cynyddu hyder

Gall profi byd gwaith ac ennill cyflog hybu hunan-barch a hunanhyder.

### 4 Archwilio diddordebau a chyfleoedd gyrfa

Gall swyddi yn ystod yr haf helpu pobl ifanc i archwilio gwahanol lwybrau gyrfa a allai fod o ddiddordeb iddyn nhw. Efallai y bydd cyfleoedd hefyd i ddechrau rhwydweithio ar gyfer swyddi yn y dyfodol.

### 5 Datblygu sgiliau

Gall eich plentyn ddysgu sut i reoli ei amser, gosod terfynau amser, a bod yn atebol am ei waith. Gall hefyd ddysgu sut i gyfathrebu â'i oruchwylwyr, cwsmeriaid a chydweithwyr.

Mae swyddi tymhorol yn ystod yr haf, yn lleol a thramor, ar ein gwefan ynghyd ag awgrymiadau defnyddiol ar sut i wneud cais am swyddi. Mae cyflogwyr yn dechrau recriwtio o fis Mawrth ymlaen.

Swyddi haf tymhorol | GyrfaCymru

# Camau nesaf a chanlyniadau arholiadau

Efallai y bydd angen i'ch plentyn wneud penderfyniad gyrfa pwysig yn ystod tymor yr haf.

## Eich plentyn ym mlwyddyn 9

Mae blwyddyn 9 yn nodi moment hollbwysig yn nhaith academaidd person ifanc wrth iddynt ddechrau dewis eu pynciau TGAU. Mae'n amser pan allant ymchwilio i'r pethau maent yn angerddol amdanynt, gan ddarganfod beth sy'n tanio eu chwilfrydedd ac sy'n gyrru eu huchelgais.

Gall y pynciau y mae eich plentyn yn eu dewis effeithio ar y chweched dosbarth neu'r coleg y gall fynychu, pa bwnc, cwrs a chymwysterau y gall eu gwneud nesaf, pa brentisiaethau y gall wneud cais amdanynt, a pha swydd y gall ei gwneud yn y dyfodol.



Eich plentyn ym mlynyddoedd 7, 8 a 9 | Gyrfa Cymru

## Eich plentyn ym mlynyddoedd 10 ac 11

Ym mlynyddoedd 10 ac 11, bydd eich plentyn yn brysur yn gweithio tuag at ei gymwysterau cyntaf. Yn ystod y cyfnod hwn, mae angen iddo feddwl am yr hyn y mae am ei wneud ar ôl blwyddyn 11, mynychu ei gyfweliad sy'n ymwneud â gyrfaoedd gyda'i gynghorydd gyrfa yn yr ysgol, ac ymchwilio i'w opsiynau.  Byddwch yn ymwybodol y gall dyddiadau cau ceisiadau ar gyfer lleoliadau coleg neu leoliadau hyfforddi fod yn gynnar iawn yn y flwyddyn academaidd yn ystod blwyddyn 11, felly mae angen i lawer o'r cynllunio ddigwydd ym mlwyddyn 10.

Ar ôl blwyddyn 11, gallai eich plentyn benderfynu parhau ym myd addysg, dilyn prentisiaeth, cael swydd, gwneud cais am hyfforddiant a datblygiad Twf Swyddi Cymru +, neu ddod yn hunangyflogedig. Os yw eich plentyn fod yn gadael blwyddyn 11 yr haf hwn ac yn dal yn ansicr, cysylltwch â Gyrfa Cymru.




Eich plentyn ym Mlynyddoedd 10 ac 11 | gyrfa Cymru

## Eich plentyn yn y coleg neu'r chweched dosbarth

Bydd eich plentyn yn cymryd mwy o gyfrifoldeb dros ei hun, ei waith a'i gynlluniau. Ond bydd eich cefnogaeth yn dal i fod yn bwysig wrth iddo benderfynu beth i'w wneud nesaf. Ar ôl ei gwrs, efallai y bydd eich plentyn yn ystyried astudio ymhellach mewn coleg neu brifysgol, ymgymryd â phrentisiaeth, dod yn hunangyflogedig neu gael swydd.

Os yw'ch plentyn yn meddwl am y brifysgol, dylai fod wedi dechrau ei gais eisoes drwy ymchwilio i opsiynau, mynychu diwrnodau agored a meddwl am ei ddatganiad personol. Os yw wedi penderfynu nad yw am symud ymlaen i brifysgol, efallai y byddai o fudd iddo siarad â'i gynghorydd gyrfa.  Bydd angen iddo hefyd gael gwybod am derfynau amser ceisiadau ar gyfer opsiynau heblaw'r brifysgol.



Eich plentyn yn y coleg a'r 6ed dosbarth | Gyrfa Cymru

# Canlyniadau arholiadau

Ni ddylai eich plentyn aros tan y diwrnod y mae'n cael canlyniadau ei arholiadau i gynllunio ei gamau nesaf. Mae cael cynllun ar waith ar gyfer pob posibilrwydd, gan gynnwys cynlluniau wrth gefn rhag ofn na fydd pethau'n gweithio allan, yn allweddol i symud ymlaen i'w gam nesaf.

Gall ein cynghorwyr gyrfa eich helpu ac efallai y byddant yn eich ysgol ar ddiwrnod y canlyniadau, neu gallwch ymweld â'ch canolfan gyrfa leol neu gysylltu â ni drwy sgwrs ar-lein, ffôn neu neges e-bost.

Mae gennym ni awgrymiadau ar y wefan hefyd i'ch helpu chi a'ch plentyn.

**Rydym ni yma i helpu bob amser!**

Eich plentyn a'i ganlyniadau | Gyrfa Cymru



# Hynt disgyblion

Bob blwyddyn rydym yn llunio arolwg blynyddol o'r disgyblion fydd yn ymadael â'r ysgol ar ran Llywodraeth Cymru.
Mae'r arolwg yn rhoi cipolwg ar y llwybrau dilyniant a ddewisir gan bobl ifanc. Maent yn cynnwys addysg, cyflogaeth a hyfforddiant. Mae'r data bob amser yn cael ei gasglu ar 31 Hydref.
Mae'r data a gesglir yn llywio'r gwaith y mae staff gyrfaoedd yn ei wneud gyda phobl ifanc, rhieni, athrawon, cyflogwyr a phartneriaid.
Gellir dod o hyd i hynt disgyblion yn ôl blwyddyn o ysgolion yng Nghymru yma:




**Hynt disgyblion | Gyrfa Cymru**

# Cynghorydd Gyrfa

## Diwrnod ym mywyd

Rwy'n gweithio yn Ysgol Uwchradd Caergybi dair diwrnod yr wythnos. Fel arfer, rwy'n cyrraedd derbynfa'r ysgol erbyn 8.20am. Rwy'n mynd i'm hystafell ac yn paratoi fy ngliniadur a'm tasgau ar gyfer y diwrnod. Ar ddydd Gwener, rwyf bob amser yn mynd i'r ystafell staff ac yn cerdded gyda'r athrawon i neuadd yr ysgol am sesiwn friffio ysgol gyda'r pennaeth. Mae'r pennaeth, neu aelod o'r tîm uwch-reolwyr, yn rhoi trosolwg o'r wythnos ac unrhyw weithgareddau a gynlluniwyd, ac yn rhannu newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf. Mae'r amser hwn yn hanfodol i ddod i adnabod aelodau'r staff ac i gadw fy hun yn gyfredol â datblygiadau'r ysgol.

Y bore yma, roeddwn yn cefnogi tri dysgwr. Roedd un dysgwr yn edrych ar opsiynau ôl-16, gan bwyso a mesur a oedd am fynd i goleg neu brentisiaeth. Roedd yr ail ddysgwr ym mlwyddyn 11 ac eisiau trafod ac edrych ar hyfforddiant Copa fel dewis arall i goleg. Roedd y trydydd dysgwr eisiau edrych ar wneud cais munud olaf i goleg, fel cymorth wrth gefn i'r chweched dosbarth.

Yn ystod amser egwyl heddiw, fe ges i sgwrs gyda phennaeth blwyddyn 10. Yn ystod tymor yr haf, gofynnir i bob dysgwr yng Nghymru gwblhau ein harolwg Gwirio Gyrfa. Cytunwyd y byddwn yn rhoi cyflwyniad yng ngwasanaeth yr ysgol yr wythnos nesaf gyda holl ddysgwyr blwyddyn 10 i drafod Gwirio Gyrfa gyda nhw.

Rwy'n dod â chinio gyda mi i'r ysgol. Fel arfer, rwy'n bwyta fy nghinio yn yr ystafell staff gyda'r athrawon Saesneg neu, os yw'r tywydd yn sych, byddaf yn cerdded i lawr i farina Caergybi. Mae'n braf cael rhywfaint o awyr iach o'r môr!

Rwy'n parhau â'r cyfweliadau gyrfa yn syth ar ôl cinio am y ddwy wers sy'n weddill. Heddiw, llwyddais i gynnal pedwar cyfweliad gyrfa, gan roi cyngor a chyfarwyddyd i ddysgwyr ym mlwyddyn 11. Rwy'n ceisio cynnal pum cyfweliad gyrfa bob dydd yn yr ysgol.

Rwy'n gorffen fy niwrnod trwy ddiweddaru ein system rheoli cwsmeriaid gyda'r holl fanylion o'm cyfweliadau gyrfa a phwyntiau allweddol ar gyfer pob dysgwr. Mae hwn hefyd yn amser ar gyfer cyfarfodydd gydag athrawon yn yr ysgol neu gydweithwyr drwy gyfrwng Microsoft Teams.



## Cari Jones

**Teitl y swydd:**
Cynghorydd Gyrfa, Gwasanaethau i Bobl Ifanc

**Canolfan Gyrfa:**
Caergybi

**Ysgol neu goleg cysylltiedig:**
Ysgol Uwchradd Caergybi

## Y rhan orau o'm swydd:

Y rhan orau o fy swydd yw pan fyddaf yn gweld pobl ifanc am gyfweliad gyrfa a hwythau yn dod yn ôl i fy ngweld i adael i mi wybod sut mae eu cyfweliad coleg wedi mynd, neu maent yn dod i ddweud diolch gan fy mod wedi llwyddo i'w helpu gyda'u cam nesaf. Mae adborth cadarnhaol bob amser yn braf ac yn gadael i chi wybod eich bod chi gwneud eich gwaith yn iawn a pha mor bwysig ydyw!

# Trefnwch apwyntiad

A oeddech chi'n gwybod ein bod ni'n cynorthwyo oedolion hefyd?Mae ein gwasanaeth Cymru'n Gweithio yn darparu ystod eang o gymorth yn cynnwys mynediad i hyfforddiant, uwchsgilio, cyllid, a help gydag ysgrifennu CV a thechnegau cyfweliad.

Cymru'n Gweithio
Working Wales


[Gallwch drefnu apwyntiad gyda chynghorydd gyrfa yma]

## Mae Cymru'n Gweithio yn cynnig cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd diduedd am ddim os ydych yn 16 oed neu'n hŷn.

Ewch i'n gwefan i ddarganfod yr amrywiaeth o ffyrdd y gallwn eich cefnogi ar eich camau nesaf:

- Cyngor ynglŷn â gwaith
- Bwletin swyddi
- Cymorth ar ôl colli swydd
- Prentisiaethau
- Ar ôl gadael yr ysgol
- Gwarant i bobl ifanc

www.cymrungweithio.llyw.cymru



# Cysylltwch â ni

Gyrfa Cymru
Careers Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- Gallwch gysylltu â chynghorydd gyrfa yn yr ysgol neu drwy ffonio **0800 028 4844**
- Mae gennym gyfleuster sgwrsio byw Cymru gyfan ar gael drwy www.gyrfacymru.llyw.cymru
- E-bost i post@gyrfacymru.llyw.cymru
- Galwch heibio i un o'n canolfannau gyrfaoedd

Dilynwch Gyrfa Cymru ar y cyfryngau cymdeithasol